

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y
FFRAMWAITH TRIN CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU
DRAFFT A'R SAFONAU NEWYDD AR GYFER
GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL MEWN
CARCHARDAI YNG NGHYMRU

**Cwblhawyd yr Aseiad Effaith Integredig gan:
Y Tîm Iechyd Meddwl, Camddefnyddio
Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed,
Llywodraeth Cymru**

**Gweinidog y Cabinet â Chyfrifoldeb: Y
Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

Dyddiad Cychwyn: Chwefror 2022

PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn ymrwymiadau penodol yng [Nghynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019 i 2022](#) a [Chynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl 2019 i 2022](#) Llywodraeth Cymru.

Mae achosion o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl gwael yn sylweddol uwch ymysg troseddwr a phobl yn y carchar, ac mae mwy ohonynt wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma. Yn ôl [astudiaeth ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) i ddeall pa mor gyffredin yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg troseddwr gwrywaidd, roedd mwy nag 8 o bob 10 carcharor yng Nghymru wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod, ac roedd bron i hanner wedi cael pedwar profiad o'r fath neu fwy. Amlygwyd yr heriau hyn a heriau eraill sy'n wynebu carcharorion yng Nghymru yn ddiweddar gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'i ymchwiliad diweddar i [ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru](#).

Hirdymor

Mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn flaenoriaethau yn y [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn carchardai](#) – a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru, byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r egwyddor sylfaenol o gyfwerthedd a sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu manteisio ar yr un lefelau o gymorth a gofal iechyd â phobl yn y gymuned.

Er mwyn ceisio gwella canlyniadau iechyd a lleihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer troseddwr yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddatblygu Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer ein carchardai yng Nghymru.

Atal

Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio atal fel gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoedd i helpu i gyflawni'r nod. Ar gyfer y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai, mae atal yn parhau i fod yn ffocws allweddol, ochr yn ochr â mynediad at ofal, cymorth a thriniaeth sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned, gan drosglwyddo gofal yn effeithiol wrth i garcharorion gyrraedd a gadael y carchar.

Integreiddio

Bydd y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carchardai yn integreiddio ac yn cyd-fynd â gwaith arall sy'n cael ei wneud i wella canlyniadau pobl yn y carchar yng Nghymru, ac ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn y gymuned, cyllid newydd i fynd i'r afael â digartrefedd a darparu atebion tai effeithiol a chynaliadwy ar gyfer pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf, a chymau parhaus i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd. Hefyd, bydd yn ategu gwaith Straen Trawmatig Cymru a'i ffrwd waith [Carchardai a Chyfiawnder Troseddol](#) sy'n ceisio meithrin gallu i nodi ac asesu straen trawmatig mewn carchardai yng Nghymru, a chynyddu mynediad at therapïau seicolegol effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i hyfforddi staff rheng flaen mewn ymarfer â phwyslais ar drawma, a chefnogi trosglwyddiadau effeithiol yn ôl i wasanaethau cymunedol.

Mae chwe charchar ar gyfer dynion yn unig yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i droseddwyr benywaidd fwrw eu dedfryd yn un o garchardai Lloegr, gyda'r rhan fwyaf yn mynd i Eastwood Park, Swydd Gaerloyw, a Charchar EM Styal, Swydd Gaer. Nid oes unrhyw garchar categori A (diogelwch uchel) yng Nghymru. Mae'n rhaid i droseddwyr categori A (ac eraill o Gymru) fwrw eu dedfryd mewn carchardai yn Lloegr, gan ddychwelyd i Gymru ar ôl cael eu rhyddhau, neu cyn cael eu rhyddhau o bosibl os ydynt yn ddynion nad ydynt yn droseddwyr categori A. Fel y cyfryw, mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl hefyd yn ystyried diwallu anghenion dynion a menywod sy'n cael eu hailsefydlu yn eu cymunedau¹ yng Nghymru ar ôl cael eu rhyddhau, ac maent yn canolbwyntio'n benodol ar drosglwyddo troseddwyr o'r carchar i'r gymuned, yn unol (er enghraifft) â'r blaenoriaethau a nodir yn y [Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru](#). Er bod y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd yn canolbwyntio ar garchardai yn benodol (yn hytrach na lleoliadau diogel ar gyfer pobl ifanc), maent yn seiliedig ar egwyddorion tebyg i'r rhai a amlinellir yn y [Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru](#) gan gynnwys pwyslais ar ofal â phwyslais ar drawma, ymatebion amlasiantaethol i ailsefydlu ac integreiddio, a gweithio mewn partneriaeth.

Cydweithio

Mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cydnabod yr amrywiaeth o bartneriaid, sefydliadau a rhanddeiliaid gwahanol sy'n helpu i ddarparu gofal, cymorth a thriniaeth i bobl sydd ag

¹ Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. 2019. Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cefnogi-troseddwyr-benywaidd>

anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn y carchar. Mae'r Fframwaith a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cynnwys pwyslais penodol ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth – a phwysigrwydd cynllunio a darparu gofal, cymorth a thriniaeth ar y cyd *gydag* unigolion yn hytrach nag *ar gyfer* unigolion, gan weithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Fframwaith a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid, ac mae nifer o ddiwyddiadau ymgysylltu wedi'u cynnal.

Cyfranogiad

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi ymgysylltu â HMPPS, byrddau iechyd, timau iechyd carchardai a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a darparwyr yn y carchardai a'r gymuned). Mae'r safonau iechyd meddwl ar gyfer y carchardai wedi'u llywio gan waith parhaus gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a chanfyddiadau adolygiadau blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai (gan gynnwys ymgysylltu â phobl yn y carchar). Bydd yr ymgysylltu hyn yn parhau fel rhan o'r ymgynghoriad ar y dogfennau drafft, ochr yn ochr ag ymgysylltu penodol â'r rhai sydd â phrofiad bywyd. Er enghraifft, ymgysylltu trwy ddefnyddio grwpiau sydd wedi'u sefydlu mewn carchardai yng Nghymru eisoes, yn ogystal ag ymgysylltu â phobl sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn cymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau neu wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned.

Bydd annog pobl sydd â phrofiad bywyd i gymryd rhan yn bwysig, o gofio bod llai o gyfleoedd wedi bod i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol hyn yn ystod y pandemig. Fel rhan o'r ymgynghoriad, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ac HMPPS yng Nghymru hefyd yn archwilio i'r defnydd o grwpiau carchardai lleol i gasglu safbwyntiau ar y dogfennau drafft er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu llywio gan unigolion sydd â phrofiad bywyd. Hefyd, byddwn yn archwilio'r potensial ar gyfer ymgysylltu â grwpiau cymorth gan gymheiriaid – fel y grwpiau a sefydlwyd i gefnogi gwaith ymchwil diweddar i effaith Covid-19 ar bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi, a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru².

Effaith

Yn aml, mae canlyniadau iechyd pobl yn y carchar yn waeth na'r boblogaeth ehangach, ac mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth a lefelau uchel o afiechyd, yn aml o ganlyniad

² Cwblhawyd [prosiect ymchwil cydweithredol](#) ar effeithiau'r pandemig yn ddiweddar gan bartneriaeth rhwng staff a gweithwyr cymheiriaid o Brifysgol De Cymru a chefnogaeth gan sefydliadau fe [Barod](#) a [Kaleidoscope](#). Cafwyd cymorth ar gyfer y prosiect gan Lywodraeth Cymru a [Datblygu Cymru Gofalgar](#).

i anghydraddoldebau iechyd (WHO, 2014).³ Yn benodol, rydym yn gwybod bod cyfraddau camddefnyddio sylweddau a digartrefedd ymysg pobl yn y carchar yn uwch cyn iddynt fynd i'r carchar, ac mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol. Amcangyfrifir bod 25% o boblogaeth carchardai'r DU yn cael anhawster wrth gyfleu a/neu brosesu neu ddysgu gwybodaeth newydd neu gymhleth, sy'n gallu eu gwneud yn fwy agored i niwed yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau. Mae cyfradd marwolaethau pobl yn y carchar 50% yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol⁴ ac mae'r perygl o hunanladdiad ymysg dynion yn y carchar 3.7 gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol.⁵

Bydd y broses o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn helpu i sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu derbyn gofal a thriniaeth sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Hefyd, bydd yn helpu i gefnogi pobl yn y carchar i wella eu hiechyd a'u llesiant.

Costau ac arbedion

Yn 2019, rhoddodd Llywodraeth Cymru £1.2 miliwn ychwanegol o gyllid blynyddol cylchol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gefnogi gwasanaethau iechyd, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yng Ngharchar EM Abertawe, Carchar EM Caerdydd a Charchardai EM Brynbuga a Phrescoed yn y drefn honno. Cytunir ar gyllid ar gyfer Carchar EM y Berwyn ar wahân trwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth penodol. Mae cyllid ar gyfer manyleb gwasanaethau iechyd Carchar EM y Parc yn cael ei gadarnhau ar hyn o bryd.

Rhagwelir y bydd cyllid presennol ar gyfer gwasanaethau iechyd mewn carchardai yn talu am y gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant yn 2022-23, ac i gefnogi hyn byddwn yn dyrannu £50 miliwn ychwanegol ar gyfer y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys tua £25 miliwn o gymorth uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, tra bydd gweddill y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi meysydd allweddol sy'n effeithio ar iechyd meddwl gan gynnwys materion camddefnyddio sylweddau, cyflogadwyedd ac atal. Bydd angen cynnwys y broses o gyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer y carchardai fel rhan o waith

³ WHO (2014) Prisons and Health, Sefydliad Iechyd y Byd, Copenhagen. Ar gael yn: <http://www.euro.who.int/en/health-topics/health-determinants/prisons-and-health/publications/2014/prisons-and-health>

⁴ [Government is failing its duty of care towards prisoners - Committees - UK Parliament](#)

⁵ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) Drug-related deaths and suicide in prison custody in England and Wales: 2008 to 2016. Ar gael yn: [Drug-related deaths and suicide in prison custody in England and Wales - Office for National Statistics](#)

cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i drafod y costau a'r arbedion a ragwelir wrth gyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau iechyd meddwl, gan gydnabod yr heriau posibl sy'n gysylltiedig â'u cyflawni, yng nghyd-destun Covid-19 a'r broses adfer yn dilyn Covid. Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad, rhagwelir (fel cam cyntaf) y bydd angen dadansoddiad bwlbch o'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai a'r fframweithiau newydd. Bydd hyn yn llywio trafodaethau yn y dyfodol ar yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o bosibl i helpu gyda'r gweithredu wrth symud ymlaen.

Mecanwaith

Rhagwelir y bydd y gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol pob carchar unigol yng Nghymru. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn cael ei darparu i'r Bwrdd Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai ar gyfer Cymru. Mae'r Bwrdd hwn yn cael ei gadeirio ar y cyd gan HMPPS a Llywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am weithredu'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai. Nid oes deddfwriaeth newydd i Gymru yn cael ei chynnig fel rhan o'r cynllun hwn, felly nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

CASGLIAD

Ym mha ffordd y mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi helpu i'w ddatblygu?

Ers i'r gwaith ddechrau ddiwedd 2019 i ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi ymgysylltu'n eang â thimau iechyd carchardai, byrddau iechyd ac HMPPS yng Nghymru. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y ddwy ddogfen, bydd yr ymgysylltu yn parhau – ac yn ceisio cynnwys y rhai sydd â phrofiad bywyd (sef pobl yn y carchar a phobl sy'n adsefydlu yn y gymuned ar hyn o bryd).

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn ymwneud â gwella canlyniadau iechyd poblogaeth sydd â chanlyniadau iechyd gwaeth na'r boblogaeth yn gyffredinol. Wrth wneud hynny, rhagwelir y bydd y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn helpu i leihau

anhydraddoldebau iechyd. Hefyd, bydd yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn y carchar yng Nghymru yn gallu derbyn y gofal, y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt – ac felly bydd yn ategu erthyglau unigol CCUHP (fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant). Mae hyn yn cynnwys [Erthygl 24](#) sy'n datgan bod gan bob person ifanc yr hawl i'r iechyd gorau posibl, ac [Erthygl 40](#) sy'n nodi bod rhaid trin person ifanc sydd wedi'i gyhuddo neu sy'n euog o dorri'r gyfraith gydag urddas a pharch. Hefyd, rhagwelir y bydd y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg (fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg). Hefyd, mae'n debygol y bydd effeithiau cadarnhaol ar bobl yn y carchar sydd â nodweddion gwarchoddedig gan gydnabod bod poblogaeth carchardai⁶ yn cynnwys nifer sylweddol o garcharorion a allai fod â chyflyrau fel anabledau dysgu, awtistiaeth, ac ADHD neu anaf i'r ymennydd; carcharorion ag anabledd dysgu a/neu iechyd meddwl; nifer anghymesur o garcharorion o gefndir lleiafrifoedd ethnig; a nifer fwy o garcharorion hŷn.⁷

Ar sail yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a / neu'n osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae darparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel – yn ogystal â diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed – yn ddau o'r deg amcan llesiant sy'n cael eu hamlinellu yn ein [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#). Hefyd, mae datblygu Cymru iachach yn un o'r saith nod llesiant sy'n sylfaen i [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) sy'n cydnabod pwysigrwydd datblygu cymdeithas sy'n hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol pobl ac yn ystyried dewisiadau ac ymddygiad sy'n fanteisiol i iechyd yn y dyfodol. Mae effeithiau anghyfartal y pandemig Covid-19 diweddar a'i effaith anghymesur ar rai grwpiau wedi dangos bod angen i ni wneud mwy i gefnogi pobl â chanlyniadau iechyd gwaeth a lleihau anhydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes.

Yn 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddau Gynllun Cyflawni newydd – y naill ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a'r llall ar gyfer Iechyd Meddwl. Yn ystod y ddau ymgynghoriad, nodwyd bod iechyd a llesiant carcharorion yn fater allweddol. Roedd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori yn cynnwys y cam blaenoriaeth i sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (a Charchar EM Eastwood, carchar menywod) wasanaeth cydgysylltiedig, tryloyw a chyson ar gyfer unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn y carchar. Roedd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r flaenoriaeth hon gan gydnabod yr

⁶ [Papwr Gwyn y Strategaeth Carchardai](#)

⁷ [Datganiad Cydraddoldeb Cyffredinol Papur Gwyn Strategaeth y Carchardai Rhagfyr 2021](#)

angen i gryfhau'r llwybrau atgyfeirio o'r ddalfa i wasanaethau cymunedol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl, gyda'r nod o wella'r cymorth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai.

Hefyd, darparwyd cymorth i nodi troseddwr a phobl yn y carchar fel grŵp agored i niwed yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl, gan gydnabod yr anghydraddoldeb a wynebwr gan y grŵp hwn, eu canlyniadau iechyd meddwl gwaeth a'u hanghenion iechyd penodol. Hefyd, nodwyd bod angen canolbwyntio ar anghenion carcharorion hŷn a phobl ifanc; buddsoddi mewn adnoddau a hyfforddiant staff; a mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Darparwyd cefnogaeth a thystiolaeth debyg dros newid yn ymwneud â gofal, cymorth a thriniaeth ar gyfer pobl yn y carchar, mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn benodol, i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yng Nghymru, yn dilyn ei ymchwiliad i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru.⁸

Roedd ymchwiliad y Pwyllgor yn cynnwys sylw i'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng ngharchardai Cymru, ac a yw gwasanaethau gofal iechyd yn diwallu anghenion carcharorion ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd pobl sy'n cael eu cadw yng ngharchardai Cymru. Nododd Adroddiad y Pwyllgor fod y lefelau ychwanegol o angen ymysg poblogaeth y carchardai o'i gymharu â'r gymuned ehangach yn thema gyson gydol yr ymchwiliad.⁹

Hefyd, nododd Adroddiad y Pwyllgor y gall fod "heriau penodol wrth asesu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl sy'n bwrw dedfrydau byr, ac wrth ddarparu'r ymyriadau gofal a chymorth priodol" (paragraff 63). Hefyd, mae'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol parhaus wrth i unigolyn drosglwyddo o'r gymuned i'r carchar, ac yn ôl i'r gymuned ar ôl cael ei ryddhau, yn bwysig iawn. Er bod y Pwyllgor yn croesawu sicrwydd gan HMIP "bod gofal iechyd mewn carchardai yng Nghymru o safon resymol ar y cyfan, a'i fod yn gwella", roedd yn pryderu "bod bylchau o hyd mewn meysydd allweddol fel iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, yn enwedig gan fod y rhain yn

⁸ [Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon \(Mawrth 2021\) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru](#)

⁹ [Paragraff 58 Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon \(Mawrth 2021\) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru](#)

feysydd lle mae anghenion poblogaeth y carchardai yn debygol o fod yn fwy na'r rhai yn y gymuned ehangach".¹⁰

Yn benodol nododd Adroddiad 2021 y Pwyllgor: "Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar boblogaeth carchardai Cymru, ac ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i symud ymlaen â'r blaenoriaethau yn y cytundeb Partneriaeth. Fodd bynnag, oni bai bod gwaith i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn cael ei symud ymlaen ar frys, bydd yr amcan o sicrhau gwelliannau yn iechyd a llesiant pobl a gedwir yng ngharchardai Cymru yn y fantol."¹¹

Bydd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn gwneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac yn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth priodol yn cael eu datblygu ar gyfer grŵp ag anghenion yn benodol.

Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu ac ar ôl iddo ddod i ben?

Mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd yn canolbwyntio ar fonitro a mesur effaith – gan gysylltu â gwaith sydd eisoes ar waith i fesur canlyniadau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal, cymorth a thriniaeth yn y gymuned. Er enghraifft, mae'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cyfeirio at y [Prosiect Mesur Canlyniadau yng Nghymru](#) sy'n rhan o Set Ddata Graidd Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru. Nod y Prosiect Canlyniadau Iechyd Meddwl yw sicrhau erbyn 2022 y bydd gwasanaethau iechyd meddwl o bob math yng Nghymru yn defnyddio adnoddau fel mater o drefn i gefnogi'r berthynas therapiwtig rhwng defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr.

¹⁰ Paragraff 73 Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (Mawrth 2021) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru

¹¹ Tudalen 5 (Rhagair) Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (Mawrth 2021) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru

DATGANIAD

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi yn ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Tracey Breheny

Adran: Yr Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru

Dyddiad: Chwefror 2022